



Taflen ffeithiau: Gweithwyr Cymdeithasol ar y Gofrestr – 1 Mehefin 2017

Mae'r wybodaeth hon yn dod o Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru o Weithwyr Gofal Cymdeithasol.
Rhaid i weithwyr cymdeithasol sy'n ymarfer yng Nghymru fod ar y Gofrestr.

Nifer y gweithwyr cymdeithasol

Roedd 5,965 o weithwyr
cymdeithasol ar y Gofrestr, sydd
wedi gostwng o 6,063 y llynedd



Trosiant

Gadawodd 480 o weithwyr
cymdeithasol y Gofrestr, ac
ymunodd 382 yn y flwyddyn
ddiwethaf



Oedran a rhyw

Roedd 4,803 o fenywod a
1,162 o ddynion a'u cyfartaledd
oedran oedd 46



Sectorau cyflogaeth

75.3% mewn gwasanaethau
cymdeithasol awdurdodau lleol
6.2% yn y trydydd sector
4.5% yn y sector preifat
Roedd 4.7% yn hunan-
gyflogedig

Cymwysterau

Roedd gan 41.4% y Diploma
mewn Gwaith Cymdeithasol
Roedd gan 30.9% y radd
bresennol baglor neu feistr
mewn gwaith cymdeithasol



Newydd gymhwyso

Cymhwysodd 241 o fyfyrwyr
gwaith cymdeithasol yng
Nghymru, ac ymunodd 222
o'r rhain â'r Gofrestr fel
gweithiwr cymdeithasol



Blynyddoedd yn y swydd

Roedd 32% o weithwyr
cymdeithasol wedi bod yn eu
swyddi presennol ers dros pum
mlynedd. Roedd 32.4% wedi
dechrau swydd newydd yn y ddwy
flynedd diwethaf

Y Gymraeg

Roedd 36.7% o'r gweithwyr
cymdeithasol yn siarad rhywfaint o
Gymraeg, neu yn rhugl



Darllen pellach

Gallwch ddarllen yr adroddiad
llawn 'Gweithwyr Cymdeithasol
ar y Gofrestr yng Nghymru
2017' ar

[https://gofalcymdeithasol.cymru/
casgliadau/adroddiadau-data-
cofrestru-cyfoes](https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/adroddiadau-data-cofrestru-cyfoes)